



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2005 Rhif 1510 (Cy.114)

2005 No. 1510 (W.114)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**SOCIAL CARE,
WALES**

**Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol
Cymru (Esboniadau ynghylch
Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005**

**The National Assembly for Wales
(Social Services Explanations)
Regulations 2005**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a restrir yn rheoliad 2(3) roi esboniad i'r Cynulliad am unrhyw beth a restrir yn rheoliad 2(1), er enghraifft dogfen a gymerwyd o fangre gan un o arolygwyr awdurdodedig y Cynulliad o dan adran 99 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 ("Deddf 2003").

These Regulations permit the National Assembly for Wales to require any person listed in regulation 2(3) to provide an explanation to the Assembly of any thing listed in regulation 2(1), for example a document removed from premises by a authorised Assembly inspector under section 99 of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 ("the 2003 Act").

Dim ond pan fo'r Cynulliad yn credu bod yr esboniad yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion Pennod 6 o Ran 2 o Ddeddf 2003 y caiff osod gofyniad i esbonio o dan y Rheoliadau hyn. O dan y Bennod honno mae gan y Cynulliad swyddogaeth o ran hyrwyddo gwelliant yn y modd y mae gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol Cymru yn cael eu darparu ac o ran ymgymryd ag adolygiadau o'r ffordd y mae awdurdodau lleol Cymru yn cyflawni eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac o ran cynnal ymchwiliadau i'r ffordd y maent yn gwneud hynny. Rhaid i'r Cynulliad gydymffurfio hefyd â rheoliad 2(2) pan fydd yn gosod gofyniad i esbonio.

The Assembly may only impose a requirement to explain under these Regulations where it considers the explanation necessary or expedient for the purposes of Chapter 6 of Part 2 of the 2003 Act. Under that Chapter the Assembly has the function of encouraging improvement in the provision of Welsh local authority social services and undertaking reviews of and investigations into the way in which Welsh local authorities discharge their social services functions. The Assembly must also comply with regulation 2(2) when imposing a requirement to explain.

Effaith adran 101(3) o Ddeddf 2003 yw bod person sy'n methu â chydymffurfio, a hynny heb esgus rhesymol, ag unrhyw ofyniad a osodir o dan y Rheoliadau hyn yn euog o dramgwydd ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

Section 101(3) of the 2003 Act has the effect that a person who without reasonable excuse fails to comply with any requirement imposed under these Regulations is guilty of an offence and liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale.

2005 Rhif 1510 (Cy.114)**2005 No. 1510 (W.114)****GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU****SOCIAL CARE,
WALES****Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol
Cymru (Esboniadau ynghylch
Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005****The National Assembly for Wales
(Social Services Explanations)
Regulations 2005**

Wedi'u gwneud *7 Mehefin 2005*
Yn dod i rym *1 Gorffennaf 2005*

Made *7 June 2005*
Coming into force *1 July 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 101(1) a (2) a 195(1) a (2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003(1), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 101(1) and (2) and 195(1) and (2) of the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003(1), hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a dehongli**Citation, commencement and interpretation**

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Esboniadau ynghylch Gwasanaethau Cymdeithasol) 2005 a deuant i rym ar 1 Gorffennaf 2005.

1.-(1) The title of these Regulations is the National Assembly for Wales (Social Services Explanations) Regulations 2005 and they shall come into force on 1 July 2005.

(2) Yn y Rheoliadau hyn-

(2) In these Regulations-

mae "cyflogai" ("*employee*"), mewn cysylltiad â darparydd gwasanaeth, yn cynnwys aelod neu ymddiriedolwr;

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003;

ystyr "y Cynulliad" ("*the Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

"the Assembly" ("*y Cynulliad*") means the National Assembly for Wales;

ystyr "darparydd gwasanaeth" ("*service provider*") yw person nad yw'n awdurdod lleol ac sy'n darparu, sydd wedi darparu neu sydd wedi cytuno i ddarparu un o wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru; ac

"employee" ("*cyflogai*") in relation to a service provider, includes a member or trustee; and

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003.

"service provider" ("*darparydd gwasanaeth*") means a person other than a local authority who provides, has provided or has agreed to provide a Welsh local authority social service.

(3) Yn y Rheoliadau hyn mae cyfeiriad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn rheoliad 2 isod.

(3) In these Regulations a reference to a numbered paragraph is to the paragraph bearing that number in regulation 2 below.

(1) 2003 p.43. *Gweler* adran 148 o'r Ddeddf i gael y diffiniad o "prescribed".

(1) 2003 c.43. *See* section 148 of the Act for the definition of "prescribed".

Pŵer i ofyn am esboniadau

2.-(1) Yn unol â pharagraff (2) caiff y Cynulliad ofyn i unrhyw berson a ragnodir ym mharagraff (3) i roi iddo, neu i berson a awdurdodir ganddo, esboniad ar unrhyw un o'r canlynol-

- (a) unrhyw ddogfennau, cofnodion neu eitemau a arolygwyd, a gopiwyd neu a gynhyrchwyd o dan adrannau 98 i 100 o'r Ddeddf;
- (b) unrhyw wybodaeth a ddarparwyd o dan yr adrannau hynny;
- (c) unrhyw faterion y mae unrhyw rai o swyddogaethau'r Cynulliad o dan Bennod 6 o Ran 2 o'r Ddeddf yn cael eu harfer mewn cysylltiad â hwy,

mewn achosion lle mae'r Cynulliad yn credu y byddai esboniad yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion y Bennod honno.

(2) Rhaid i ofyniad o dan baragraff (1) gael ei roi ar ffurf hysbysiad ysgrifenedig y mae'n rhaid iddo hefyd-

- (a) nodi'r rheswm pam y mae angen yr esboniad;
- (b) pennu a yw'r esboniad i'w roi yn bersonol neu'n ysgrifenedig (ac eithrio bod rhaid gofyn i'r esboniad fod yn ysgrifenedig pan fo'r person y gofynnir iddo roi'r esboniad yn gorff o bersonau corfforaethol neu anghorfforedig); ac
- (c) pan fo'r esboniad i'w roi yn bersonol, pennu'r amser ar gyfer ei roi a'r man lle mae i'w roi, a rhoi hysbysiad rhesymol o'r amser hwnnw a'r man hwnnw.

(3) Y personau a ragnodir yw-

- (a) awdurdod lleol;
- (b) aelod neu gyn aelod awdurdod lleol;
- (c) maer etholedig neu gyn faer etholedig awdurdod lleol, o fewn yr ystyr a roddwyd iddynt yn adran 39(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(1);
- (ch) swyddog neu gyn swyddog i awdurdod lleol;
- (d) darparydd gwasanaeth;
- (dd) cyflogai neu gyn gyflogai darparydd gwasanaeth neu unrhyw berson arall sy'n cynorthwyo neu sydd wedi cynorthwyo'r darparydd hwnnw i ddarparu un o wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru;
- (e) person (nad yw'n un a restrwyd mewn unrhyw un o is-baragraffau (b) i (dd)) sy'n cynorthwyo neu sydd wedi cynorthwyo awdurdod lleol i ddarparu un o wasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru.

Power to require explanations

2.-(1) The Assembly may in accordance with paragraph (2) require any person prescribed in paragraph (3) to provide to it, or to a person authorised by it, an explanation of any of the following-

- (a) any documents, records or items inspected, copied or produced under sections 98 to 100 of the Act;
- (b) any information provided under those sections;
- (c) any matters which are the subject of the exercise of any functions of the Assembly under Chapter 6 of Part 2 of the Act,

in cases where the Assembly considers the explanation necessary or expedient for the purposes of that Chapter.

(2) A requirement under paragraph (1) must be given in a written notice which must also-

- (a) set out the why the explanation is required;
- (b) specify whether the explanation is to be provided in person or in writing (save that where the person required to provide the explanation is a body of persons corporate or unincorporate, the explanation must be required in writing); and
- (c) where the explanation is to be provided in person, specify, and give reasonable notice of, the time and place at which it is to be provided.

(3) The prescribed persons are-

- (a) a local authority;
- (b) a member or former member of a local authority;
- (c) an elected mayor or former elected mayor of a local authority, within the meaning of section 39(1) of the Local Government Act 2000(1);
- (d) an officer or former officer of a local authority;
- (e) a service provider;
- (f) an employee or former employee of a service provider or any other person who is assisting or has assisted that provider in the provision of a Welsh local authority social service;
- (g) a person (other than one listed in any of sub-paragraphs (b) to (f)) who is assisting or has assisted a local authority in the provision of a Welsh local authority social service.

(1) 2000 p.22.

(1) 2000 c.22.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(1)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(1)

7 Mehefin 2005

7 June 2005

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(1) 1998 p.38.

(1) 1998 c.38.

© Hawlfraint y Goron 2005

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2005

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W86/6/05

ON

ISBN 0-11-091146-6



9 780110 911465